# Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028

## Crynodeb Hawdd Ei Ddarllen







## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Ysgrifennwyd y crynodeb hwn gan **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion**. Mae'n fersiwn hawdd ei darllen o'r **'Cynllun Llesiant Lleol drafft 2023-2028'**.

**Tachwedd 2022**

# Cyflwyniad





Mae hon yn ddogfen hawdd ei darllen. Ond efallai y bydd dal angen cymorth arnoch i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.




Gall y geiriau mewn **print glas trwm** fod yn anodd eu deall. Defnyddir print glas trwm y tro cyntaf i'r geiriau cael eu defnyddio.

Pan mae'r ddogfen yn sôn amdanon **ni**, mae hyn yn golygu **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion**.





I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **wefan** y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/partneriaethau/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus-ceredigion/

# Beth yw Cynllun Llesiant?




Mae gan Gymru gyfraith ynglŷn â'r dyfodol. Enw'r gyfraith yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r gyfraith yn ymwneud â gwneud bywyd yn well i bobl nawr, ac yn y dyfodol.





Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i **wasanaethau cyhoeddus** gydweithio. Dyna pam mae gennym Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngheredigion.

Fel arfer, gwasanaethau llywodraeth yw **Gwasanaethau Cyhoeddus**, sy'n helpu pobl trwy wneud pethau fel casglu biniau a rhedeg ysgolion.





Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn cynnwys pobl o wahanol sefydliadau.

Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ni ysgrifennu Cynllun Llesiant Lleol.




Mae'n rhaid i'r Cynllun Llesiant Lleol ddweud sut y byddwn yn gwella lles yng Ngheredigion yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

Mae llesiant yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'u bywyd a'r hyn maen nhw'n ei wneud.




Fe wnaethon ni wrando ar yr **Asesiad** Llesiant, cymunedau a phartneriaid i greu'r Cynllun Llesiant.

Mae **asesiad** yn ffordd o ddarganfod a oes angen help a chefnogaeth ar rywun.




Mae 5 maes y byddwn yn gweithio arnynt i wella lles.


Dyma ein Hamcanion Llesiant.

# Beth sydd yn y Cynllun?

**Byddwn yn cydweithio ar:**




1. **Llesiant Economaidd**
- Adeiladu ar y pethau sy'n werthfawr i Geredigion.
- Helpu pobl leol i elwa o'r ffordd rydyn ni'n gweithio a gwneud arian.




2. **Llesiant Cymdeithasol**
- Helpu pobl i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd.
- Defnyddio natur a chymuned i helpu pobl i deimlo'n well.




3. **Llesiant Amgylcheddol**
- Gofalu am yr amgylchedd.
- Gwneud y gorau o fyd natur yn ein hardal.


Yr iaith Gymraeg




## 4. Llesiant Diwylliannol

- Cefnogi pobl i deimlo'n ddiogel.
- Darparu mwy o gyfleoedd i bobl siarad Cymraeg.


Dim arian



## 5. Mynd i'r Afael â Thlodi

- Helpu pobl i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd.
- Cefnogi pobl sy'n ei chael hi'n anodd talu am bethau sylfaenol.

Y dyfodol





Rydyn ni am i bobl gael bywyd gwell nawr. Rydyn ni am i bobl yn y dyfodol gael bywyd gwell hefyd.

Mae hyn yn golygu bod angen i ni wneud newidiadau nawr, er mwyn cael dyfodol gwell.

# 1. Llesiant Economaidd

yn eu harddegau




Mae pobl ifanc yn gadael y sir i chwilio am swyddi.

65 oed neu'n hŷn



Mae poblogaeth Ceredigion yn mynd yn hŷn.

Swydd




Mae'r ffordd y mae pobl yn gwneud eu gwaith yn newid ers COVID.

Gliniadur




Mae pobl yn defnyddio technoleg yn fwy.

Problemau




Mae poeni am arian a phroblemau eraill yn cael effaith ar iechyd pobl.

**Byddwn ni yn:**




Helpu pobl yng Ngheredigion i wella eu sgiliau ar gyfer gwaith.





Defnyddio cyllid yn well i helpu pobl yn y lle maen nhw'n byw.





Meddwl am ffyrdd o wneud i **gadwyni cyflenwi** weithio'n well.

> **Cadwyn gyflenwi** yw symud rhywbeth o ble mae'n cael ei wneud i'r sawl sy'n ei ddefnyddio.





Gwneud yn siŵr fod pobl yn derbyn gofal yn y gwaith.


# 2. Llesiant Cymdeithasol





Weithiau nid yw pobl yn cael cyfle cyfartal mewn bywyd. Mae COVID wedi gwneud hyn yn waeth.




Mae lle mae pobl yn cael eu geni, yn byw, yn mynd i'r ysgol ac yn gweithio yn cael effaith ar eu bywydau.




Mae gan rai pobl iechyd gwael, maen nhw'n dlawd a / neu'n cael eu trin yn wael.





Gall treulio amser yn y gymuned a thu hwnt helpu pobl i deimlo'n well.

Gelwir hyn yn **rhagnodi cymdeithasol**.

**Byddwn ni yn:**





Helpu pobl mewn ardaloedd lleol ar draws Ceredigion i gael mynediad at yr un pethau.




Dysgu beth sydd eisoes gan gymunedau a beth sydd ei angen, fel eu bod yn cael gwell cefnogaeth.





Helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd talu am bethau sylfaenol.




Cefnogi mynediad at fwyd iach i bawb.

Annog rhagnodi cymdeithasol a chefnogaeth gymunedol.




Helpu i sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio technoleg fel y rhyngrwyd.

# 3. Llesiant Amgylcheddol

Newid Hinsawdd




Newid hinsawdd yw problem fwyaf heddiw a'r dyfodol.

Mae gormod o **garbon deuocsid** yn achosi newid hinsawdd.

Nwy sy'n cael ei achosi gan bethau fel gyrru yw **carbon deuocsid**.

Coeden



Mae pobl Ceredigion yn mwynhau byd natur ac mae'n gwneud iddyn nhw deimlo'n well.

Plant yn poeni



Mae plant a phobl ifanc yn poeni. Maen nhw am amddiffyn ein planed.


Mae pobl ifanc yn poeni am **dipio anghyfreithlon** a cholli llefydd gwyrdd.

Tipio anghyfreithlon



**Tipio anghyfreithlon** yw pan mae darnau mawr o sbwriel fel soffa yn cael eu gadael lle na ddylen nhw fod.


## Byddwn ni yn:





Cynnal llai o weithgaredd sy'n creu llawer o garbon deuocsid.





Ceisio gwella ansawdd aer, dŵr ac amgylchedd Ceredigion.




Amddiffyn natur, planhigion ac anifeiliaid.




Helpu cymunedau i baratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd.





Gwella sgiliau a hyfforddiant i ofalu am ein hamgylchedd yn well.


# 4. Llesiant Diwylliannol





Mae siarad Cymraeg yn bwysig i bobl Ceredigion.




Mae rhoi cyfle i bobl ddysgu a siarad Cymraeg yn bwysig fel bod pobl yn y dyfodol yn gallu siarad yr iaith hefyd.




Mae cael cysylltiad cymdeithasol mewn cymunedau yn gwneud i bobl deimlo'n llai unig.





Mae pobl eisiau teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau.

## Byddwn ni yn:


Y dyfodol

Helpu cymunedau i ymfalchïo yn y gorffennol a siapio'r dyfodol.



Siarad

Creu cynllun newydd i helpu pobl i siarad Cymraeg yn y gwaith.



Arolwg

Cynnal arolwg i weld pa fathau o droseddau sydd yn poeni pobl fwyaf.


Rhannu gwybodaeth


Rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau am densiynau mewn cymunedau.


Croeso


Cefnogi a chroesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i Geredigion.

Cefnogi Cymru wrth-hiliol.


# 5. Mynd i'r Afael â Thlodi




Mae bron i 1 ym mhob 3 aelwyd yn byw mewn tlodi yng Ngheredigion.





Mewn ardaloedd tlawd, mae plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o gael iechyd meddwl gwael.




Mae tai a gofal plant yn costio llawer o arian. Mae llawer o swyddi'n talu'n wael.




Mae pobl yn poeni am sut i dalu am fwyd.





Mae yna lawer o hen dai sy'n anodd eu gwresogi.


**Byddwn ni yn:**





Deall bod tlodi yn cael effaith ar les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.




Cefnogi pobl sy'n ffeindio costau byw'n anodd.




Bydd yr Is-grŵp Tlodi yn gwrando ar yr hyn sydd ei angen ar gymunedau.





Bydd sefydliadau'n cydweithio i ddiwallu'r anghenion hynny.

Bydd yr Is-grŵp Tlodi yn cynghori'r BGC am y ffordd orau o gefnogi pobl sydd mewn tlodi.

# Y Camau Nesaf





Pan fydd y Cynllun wedi'i gytuno arno, byddwn yn gwirio bod y Cynllun yn gweithio.




Mae gan y Cyngor lleol bwyllgor i wirio popeth y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei wneud.





Bob blwyddyn byddwn yn anfon adroddiad i'r pwyllgor yn dweud beth rydyn ni wedi'i wneud i wella bywydau pobl.




Ni fyddwn yn cytuno ar y Cynllun hwn nes ein bod wedi clywed beth yw barn y cyhoedd.

# Dywedwch wrthym beth rydych chi'n ei feddwl





Fe wnaethon ni wrando ar y cyhoedd cyn ysgrifennu'r Cynllun hwn.

Nawr rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi'n ei feddwl eto.




Dywedwch wrthym beth rydych chi'n ei feddwl o'r Cynllun hwn.




Rhaid i chi ddweud wrthym beth rydych chi'n ei feddwl cyn **31 Ionawr 2023**.


Mae gwahanol ffyrdd o ddweud eich dweud.





Ymateb **Ar-lein**:
https://dweudeichdweud.ceredigion.gov.uk/cynllun-llesiant-lleol-ceredigion





I lawrlwytho **ffurflen ymateb**, ewch i:
http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgynghoriadau/cynllun-llesiant-lleol-ceredigion-2023-28/





**E-bostiwch** y ffurflen ymateb i:
partnerships@ceredigion.gov.uk




Neu **postiwch** y ffurflen ymateb at:
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion,
Cyngor Sir Ceredigion,
Canolfan Rheidol,
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3UE




Gallwch hefyd ofyn am gopi papur o'r ffurflen yn eich llyfrgell leol neu'r faniau llyfrgell symudol.




Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat gwahanol fel print bras, cysylltwch:

**E-bost:** clic@ceredigion.gov.uk
**Ffôn:** 01545 570881




Diolch am eich amser.

# Sefydliadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Heddlu Police DYFED POWYS

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Un Llais Cymru One Voice Wales

LLGC NLW

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Public Services Board

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion CAVO Ceredigion Association of Voluntary Organisations

GIG Cymru NHS Wales Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Department for Work & Pensions

GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

colegceredigion

Prawf Cymru Wales Probation

1872 Prifysgol Aberystwyth University







Caru·Love Ceredigion

*Cydnabyddiaethau:*
Symbolau Hawdd eu Darllen, Hawlfraint Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Partneriaeth Leeds ac York.